Rhaglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop ôl-2013

Cefndir

Rhwng 2007 a 2013, bydd ein heconomi a phobl ledled Cymru yn elwa o fuddsoddiad o tua £3.8 biliwn (£1.9 biliwn o gyllid yr UE) drwy raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewrop.

Roedd y 15 awdurdod unedol yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, sydd â Chynnyrch mewnwladol crynswth (CMC) o lai na 75% o gyfartaledd yr UE, yn gymwys ar gyfer y lefel uchaf o gyllid 'Cydgyfeirio', gan ddod â buddsoddiad cyffredinol o £3.5biliwn i'r rhanbarth ar gyfer 2007-2013. Mae'r saith awdurdod unedol yn ardal Cystadleurwydd a Chyflogaeth Rhanbarthol Dwyrain Cymru wedi cael dros £110miliwn o grant Ewropeaidd.

Mae'r rownd bresennol o raglenni Ewropeaidd fod cau ar 31 Rhagfyr 2013, er bydd gwariant yn parhau i mewn i 2015. Diben y ddogfen friffio hon yw rhoi gwybodaeth ar ddatblygiad rhaglenni cyllido Ewropeaidd ar ôl 2013.

Cynnydd hyd yma

Ar 10 Tachwedd 2010 cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd y Pumed Adroddiad ar Gydlyniad Economaidd a Chymdeithasol, a oedd yn amlinellu safbwynt y Comisiwn ar sut y dylai rhaglenni Cronfeydd Strwythurol y dyfodol gael eu strwythuro a'u gweithredu ar gyfer y cyfnod 2014-2020, ac roedd yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus o'r cynigion. Gellir lawrlwytho Ymatebion i'r ymgynghoriad ar Bumed Adroddiad Cydlynol o ar draws Ewrop, gan gynnwys ymatebion WCVA a rhanddeiliad eraill, o wefan y Comisiwn Ewropeaidd.

Strategaeth 2020 Ewrop yw strategaeth twf newydd yr Undeb Ewropeaidd mewn ymateb i'r argyfwng ariannol a hwn fydd y gyrrwr polisïau ar gyfer cyllid ar ôl 2013. Mae'n dilyn agenda Lisboa a Göteborg ar gyfer swyddi a thwf cynaliadwy ac mae ganddo dair blaenoriaeth sy'n atgyfnerthu'i gilydd sef i'r UE ddod yn economi glyfar, cynaliadwy a chynhwysol. Er mwyn mesur y cynnydd o ran cyrraedd nodau 2020 yr UE mae'r Comisiwn wedi cynnig y prif dargedau canlynol yn sail i'r tair blaenoriaeth:

1. Cyflogi 75% o bobl 20-64 mlwydd oed
2. 3% o CMC yr UE i gael ei fuddsoddi mewn Ymchwil a Datblygu ac arloesedd
3. Dylid cyrraedd targedau hinsawdd/ynni *"20/20/20"* (h.y. lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr o 20%, cael 20% o ynni o ffynonellau adnewyddadwy a chynnydd o 20% mewn effeithlonrwydd ynni)
4. Lleihau cyfraddau'r rheini rhoi'r gorau i fynd i'r ysgol i lai na 10% a dylai o leiaf 40% o bobl 30-34 oed gael gradd drydyddol
5. Dylai 20 miliwn o bobl yn llai fod mewn perygl o dlodi

Mae 2020 yr UE a'r Pumed Adroddiad Cydlynol yn nodi cyfeiriad cyffredinol ar gyfer rhaglenni Cronfeydd Strwythurol yng Nghymru ar ôl 2013, tra bod maint cyllideb yr UE ar gyfer 2014-2020 yn gosod y fframwaith ariannol ar gyfer cyflwyno'r polisi Cydlynol.

Cyllideb yr UE ar gyfer 2014-2020

Ar 29 Mehefin 2011 cyhoeddodd y Comisiwn Elusennau ei gynigion ar gyfer y Fframwaith Ariannol Amlflwydd nesaf ar gyfer cyllideb yr UE am y saith mlynedd nesaf. Fel rhan o'r cynnig, byddai'r gyllideb yn codi o €976 biliwn ar gyfer 2007-2013 i €1.025 biliwn ar gyfer 2014-2020, yn cynrychioli cynnydd o 4.8% mewn gwariant.

Mae cyllideb yr UE yn cynrychioli 1% o gyfanswm cynnyrch mewnwladol crynswth (CMC) y 27 o Aelod-wladwriaethau'r UE, ac mae'n cynnwys nifer o feysydd allweddol, yn cynnwys rhaglenni cyllido, fel y Cronfeydd Strwythurol a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) sydd o fudd uniongyrchol i unigolion a mudiadau ledled yr UE.

I grynhoi, dyma gynigion y gyllideb:

- Bod y meysydd mwyaf o gyllido, polisi Cydlyniant (Cronfeydd Strwythurol) a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) yn parhau ar lefelau tebyg i 2007-2013.
- Gwelwyd y cynnydd uchaf mewn cyllid o'i gymharu â rowndiau blaenorol ym meysydd addysg, hyfforddiant a phobl ifanc.
- Bydd cronfa newydd gwerth €40 biliwn, *Connecting Europe*, yn ariannu prosiectau trawsffiniol mewn ynni, trafnidiaeth a thechnoleg gwybodaeth.
- Gwelir cynnydd sylweddol mewn buddsoddiadau mewn ymchwil ac arloesedd.
- Mae addewid am arian newydd ar gyfer rheoli ffiniau, diogelwch a mewnfudo Gwasanaeth Gweithredu Allanol yr UE (EEAS).
- Mae'r UE yn cynnig trethi newydd, fel treth ar drafodion ariannol a threth ar werth (TAW) ar draws yr UE cyfan fel modd o gynyddu adnoddau'r UE ei hunan, ac felly lleihau dibynadwyedd ar gyfraniadau Aelod-wladwriaethau i'r Gyllideb.
- Mae cynnig hefyd i symleiddio ad-daliad y DU i'w newid am swm a nodir ymlaen llaw nad yw'n ddibynnol ar ffactorau eraill.
- Bydd pob sefydliad, gwasanaeth neu asiantaeth yr UE yn lleihau ei lefelau staff o 5%.

Mae'r Aelod-wladwriaethau eisoes wedi dechrau'r broses drafod ar y Gyllideb, gyda phenderfyniad terfynol i'w ddisgwyl erbyn mis Rhagfyr 2012.

Cyllideb a Pholisi Cydlyniant yr UE

Ar hyn o bryd mae'r Polisi Cydlyniant yn cael €385 biliwn ar gyfer y cyfnod 2007-2013, ac mae'r Comisiwn yn cynnig clustnodi €376 biliwn ar gyfer 2014-2020 i'r blaenoriaethau canlynol:

- Cronfa Cydlyniant ar gyfer yr Aelod-wladwriaethau tlotaf €68.7 biliwn
- Cyfleuster Seilwaith *Connecting Europe* €40 biliwn
- Rhanbarthau Cydgyfeirio (CMC o lai na 75% o gyfartaledd yr UE) €162.6 biliwn
- Rhanbarthau pontio (CMC o 75%-90% o gyfartaledd yr UE) €39 biliwn
- Cystadleurwydd (dros 90% o gyfartaledd CMC) €53.1 biliwn
- Rhaglenni Cydweithredu Tiriogaethol €11.7 biliwn
- Dyraniad ar gyfer y rhanbarthau pellaf sydd â phoblogaeth wasgaredig €926 miliwn

Caiff 5% o'r gyllideb Cydlyniant ei neilltuo fel cronfa berfformiad i wobrwyo Aelod-wladwriaethau a rhanbarthau ar gyrraedd cerrig milltir a thargedau yn llwyddiannus fel y nodir yn ystod adolygiad canol tymor yn 2016.

Sut mae rhaglenni Cronfeydd Strwythurol y dyfodol yn datblygu?

Mae'r Comisiwn yn bwriadu cyflwyno nifer o newidiadau i'r polisi Cydlyniant yn y dyfodol, yn cynnwys:

Rhanbarthau Pontio

- Dylai'r categori canolradd newydd arfaethedig ar gyfer rhanbarthau Pontio (y rheini sydd â CMC o 75%-90% o gyfartaledd yr UE) gael dwy ran o dair o'i dyraniad Cydgyfeirio presennol. Fodd bynnag, disgwylir y bydd cryn drafod ynghylch a ddylai'r categori hwn barhau ai peidio.
- Bydd disgwyl i ranbarthau Cystadleurwydd a Phontio ganolbwyntio eu cyllidebau ERDF i gyd ar effeithlonrwydd ynni ac ynni adnewyddadwy, ac arloesedd a chystadleurwydd BBaCh.

Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF)

- Mae'r Comisiwn wedi cynnig lefelau sylfaenol o fuddsoddiad yng Nghronfeydd Strwythurol Ewrop ar gyfer pob categori o ranbarth: 25% o gyfanswm gwerth y rhaglen ar ranbarthau Cydgyfeirio; 40% ar gyfer rhanbarthau Pontio a 53% ar gyfer rhanbarthau Cystadleurwydd.
- Bydd blaenoriaethau ESF yn cyd-fynd â strategaeth Ewrop 2020. Bydd pedair blaenoriaeth thematig: *hyrwyddo cyflogaeth, buddsoddi mewn sgiliau a dysgu gydol oes, brwydro yn erbyn tlodi a gweinyddiaeth gyhoeddus effeithiol a gallu mudiadau.* Bydd y pedair blaenoriaeth thematig hyn yn trawsnewid i 18 o flaenoriaethau buddsoddi y bydd yn rhaid i ranbarthau ddewis ohonynt ac yna strwythuro eu hymyriadau ynddynt.
- Mae'r Comisiwn yn awyddus i ESF i ddychwelyd at ddull gweithredu sy'n cynnwys y gymdeithas yn fwy, gyda llai o ffocws ar ganlyniadau swyddi, fel sydd wedi bod yn wir yn y rhaglen Cydgyfeirio.
- Bydd yr ESF yn canolbwyntio ar ganlyniadau, symleiddio, cyfranoldeb (rheoli ac archwilio) a chyd-drefnu ac integreiddio polisïau.

Symleiddio

- Mae'r Comisiwn am sicrhau mwy o gydlyniant rhwng y pedair cronfa (ERDF, ESF, EAFRD a'r Gronfa Bysgodfeydd) drwy gyflwyno Fframwaith Strwythurol Gyffredin sy'n cynnwys yr holl gronfeydd. Maent hefyd am weld y gwahanol reolau ar gyfer pob cronfa'n cael eu symleiddio er mwyn ei gwneud yn haws i lunio prosiectau sy'n cael cymorth o fwy nag un gronfa.
- Bydd contractau partneriaethau sy'n nodi ymrwymiad partneriaid ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol i ddefnyddio'r cyllid a ddyrannwyd i weithredu strategaeth UE2020 yn cael eu rhoi ar waith rhwng yr Aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn, a chaiff perfformiad ei asesu yn erbyn y contractau hyn.

Dull datblygu lleol

- Mae'r Comisiwn yn awyddus i weld rhagor o gefnogaeth strategol ar gyfer datblygiadau lleol a arweinir gan y gymuned, gan ddefnyddio'r model LEADER i greu grwpiau gweithredu lleol a fyddai'n gwneud cais am arian ar ran mentrau cymunedol, ar lawr gwlad, gyda'r nod o sicrhau y caiff o leiaf 50% o benderfyniadau eu gwneud gan y gymdeithas sifil.

Blaenoriaethau allweddol

Ar hyn o bryd yn y broses ddatblygu, gellid dweud y dylai'r trydydd sector fod mewn sefyllfa dda i sicrhau'r blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg yn y rhaglen, yn enwedig o ran dull datblygu lleol newydd, ac ymdrin â blaenoriaethau UE2020 i frwydro yn erbyn tlodi a gweithio gyda phobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEETS).

Isod, ceir amlinelliad o rai o'r materion a'r blaenoriaethau allweddol i'r trydydd sector eu hystyried wrth i raglenni Cronfeydd Strwythurol 2014-2020 ddatblygu:

- Canolbwyntio adnoddau ar flaenoriaethau UE2020 – er y croesawir cyllideb gyda

mwy o ffocws, mae'n bwysig cadw rhywfaint o hyblygrwydd er mwyn targedu cyllid ble mae ei angen fwyaf.

- **Amodoldebau** –mae'r comisiwn wedi cynnig ystod o amodoldebau ar gyflwyno'r rhaglen, a allai ddarparu fframwaith rhy gadarn ar gyfer ei gweithredu

- **Symleiddio -** Mae WCVA yn cymell y Comisiwn i sicrhau bod unrhyw waith symleiddio a wneir i'r broses o gyflwyno'r rhaglenni nesaf er budd mudiadau sy'n cyflwyno prosiectau neu gontractau, yn hytrach nag er mwyn yr awdurdod reoli, WEFO.

- **Ffocws trefol** –dylai'r rhanbarthau gael yr awdurdod i ddiffinio 'trefol' yng ngyd-destun eu hamgylchiadau eu hunain, ac anogir y Comisiwn i beidio â chlustnodi cyllid, er mwyn rhoi hyblygrwydd gorau posibl i ranbarthau i ddyrannu cyllid i'r ardaloedd o angen mwyaf.

- **Dull datblygu lleol** – ar hyn o bryd, mae'n ymddangos bod y Comisiwn wedi cyfyngu i weithredu'r dull hwn mewn ardaloedd trefol, ond dylid ystyried gwerth ehangu hwn i ardaloedd trefol a gwledig.

- **Contractau partneriaethau** –caiff y contractau hyn eu trafod a'u cytuno rhwng Aelod-wladwriaethau a'r Comisiwn Ewropeaidd, a dylid gosod ymrwymiadau partneriaid ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol. Yng Nghymru, byddai'n well cael dull partneriaeth at greu contract *rhanbarthol* ar wahân rhwng Cymru a'r Comisiwn.

- **Offer ariannol** –dymuna'r Comisiwn weld mwy o ddefnydd o offer ariannol a bod mwy ar gael, gan gynnwys Bondiau Buddsoddi Cymdeithasol o bosibl. Mae hyn yn cyflwyno cyfleoedd i'r trydydd sector i sicrhau arian drwy fenthyciadau sy'n cefnogi symud oddi wrth fod yn ddibynnol ar grantiau.

- **Grantiau Byd-eang -** caiff y rhain eu crybwyll yn benodol yn yr Adroddiad Cydlyniant. Dyma'r egwyddor o glustnodi cyllid, fel arfer wedi'i gyfateb o flaen llaw, ar gyfer cynllun grant o fewn y Rhaglen Weithredol. Gallai'r dull hwn rhoi cwmpas ar gyfer y graddfeydd llai o gaffael i gael eu disodli gan grantiau byd-eang i leihau biwrocratiaeth a chael gafael ar gyllid yn gyflym ac yn haws.

Amserlen

Medi 2011	Rheoliadau Draft Cronfeydd Strwythurol ar ôl 2013
Medi 2011-Rhag 2012	Negodi a chytuno ar Gyllideb a Rheoliadau Cronfeydd Strwythurol yr UE gan y 27 o Aelod-wladwriaethau'r UE
Hydref 2011	Rheoliadau Draft y Rhaglen Datblygu Gwledig
Rhagfyr 2011	Trafod Fframwaith Strategol Gyffredin ar gyfer Polisi Cydlyniant
2013	Trafodaethau'r Aelod-wladwriaethau yn dechrau ar ardaloedd cymwys a dyraniadau o Gronfeydd Strwythurol ar gyfer 2014-2020
Ionawr 2013	Ymgynghoriad yr Aelod-wladwriaethau ar Raglenni Gweithredu 2014-2020
Ionawr 2014	Dechrau Rhaglenni 2014-2020 yng Nghymru

Y camau nesaf yng Nghymru

Bydd amcangyfrifon CMC cyfartalog y pen ar gyfer 2007-2009 yn llunio'r sylfaen debygol ar gyfer y rownd nesaf o ddyraniadau'r Gronfa Strwythurol. Mae Eurostat wedi cyhoeddi ffigwr cyfartalog amcangyfrifon 2007 a 2008 ar gyfer CMC y pen yng Ngorllewin Cymru a'r Cymoedd, sef 73.4% a 72.2% h.y. yn is na 75% sef trothwy presennol ar gyfer cymhwyso ar gyfer Cronfeydd Strwythurol. Yn allweddol, bydd y set nesaf o ffigurau ar gyfer 2009 yn dangos a fydd Gorllewin Cymru a'r Cymoedd yn gymwys ar gyfer y lefel uchaf o gymorth ar

gyfer 2014-2020.

Mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) yn rhoi trefniadau ar waith i weithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys y trydydd sector, i baratoi ar gyfer y rhaglenni newydd drwy Fforwm Partneriaeth ôl-2013 a ffrydiau gwaith arbenigol. Mae WCVA wedi cael gwahoddiad i gymryd rhan yn y Fforwm Partneriaeth a bydd Tîm Ewropeaidd y Trydydd Sector (3-SET) yn ceisio ymgysylltu â'r sector yn y drafodaeth am ein blaenoriaethau ar gyfer rhaglenni 2014-2020 drwy Fforwm Ewropeaidd y Trydydd Sector (3-SEF) a digwyddiadau ymgynghorol rhanbarthol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan WEFO i weld Datblygiad Rhaglenni ôl-2013.Neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â: 3SET@wcva.org.uk; 029 2043 1744/1779.